



**Strategaeth ar y Cyd ar gyfer Ymgysylltu a  
Chyfathrebu 2018-2022**

## Cynnwys

---

1. Crynodeb gweithredol.....	3
2. Cyflwyniad.....	3
3. Gweledigaeth strategol.....	5
4. Sut mae Gwent yn edrych?.....	5
5. Fframwaith Cyfreithiol.....	6
6. Atebolrwydd a thryloywder.....	6
7. Cynulleidfaoedd allweddol.....	7
8. Egwyddorion cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol.....	8
9. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gymunedau a phrif randdeiliaid.....	9
10. Ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau a phrif randdeiliaid.....	10
11. Cynnwys a grymuso cymunedau a phrif randdeiliaid.....	11
12. Mesur llwyddiant.....	12
13. Cydnabyddiaethau.....	12

## Atodiadau

---

A – Mesurau Llwyddiant.....	13
B – Egwyddorion Gunning.....	15
C – Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.....	16
D – Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.....	17

Rydym yn croesawu eich sylwadau ac awgrymiadau ynglŷn â chynnwys y strategaeth hon. I roi adborth, neu i ofyn am fformat arall, cysylltwch â ni:

### Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent

Pencadlys Heddlu Gwent

Croesyceiliog, Torfaen,

NP44 2XJ

Ffôn: 01633 642200

E-bost: [commissioner@gwent.pnn.police.uk](mailto:commissioner@gwent.pnn.police.uk)

Gwefan: [www.gwent.pcc.police.uk](http://www.gwent.pcc.police.uk)

### Heddlu Gwent

Pencadlys Heddlu Gwent

Croesyceiliog, Torfaen,

NP44 2XJ

Ffôn: 01633 838111

E-bost: [contact@gwent.pnn.police.uk](mailto:contact@gwent.pnn.police.uk)

Gwefan: [www.gwent.police.uk/](http://www.gwent.police.uk/)

## 1. Crynodeb Gweithredol

---

Mae ymgysylltu da a chyfathrebu effeithiol yn rhan hanfodol o sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn gallu lleisio barn yn effeithiol ynghylch sut mae eu cymunedau'n cael eu plismona a'u bod yn deall heriau plismona modern.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ei swyddfa a Heddlu Gwent yn bwriadu ymgysylltu â chymunedau a phrif randdeiliaid ledled y sir, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau, yn amrywio o ymgysylltu wyneb yn wyneb i ryngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd yn dangos sut gall ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol:

- gynyddu / gwella hyder y cyhoedd a boddhad dioddefwyr;
- helpu i gyflawni ein hamcanion sefydliadol;
- ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd yn effeithiol, gan gynnwys pobl fregus, dioddefwyr troseddau, grwpiau cymunedol, y dinasyddion hynny nas clywir yn aml a phartneriaid strategol eraill;
- hysbysu'r cyhoedd sut gallant gymryd rhan ac atal digwyddiadau;
- codi proffil Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ei swyddfa, Heddlu Gwent a dangos llwyddiant, gwerth ac effaith y gwaith a wneir ganddynt;
- galluogi pobl i ddeall yr hyn rydym yn ei wneud a lleisio barn ynghylch sut rydym yn ei wneud;
- darparu ffynonellau cudd-wybodaeth gwerthfawr;
- cynorthwyo Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif.

Mae'n cynnwys manylion y prif amcanion ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu sydd i gael eu cyflawni dros y blynyddoedd i ddod yn unol â blaenoriaethau'r heddlu a throseddu ar gyfer Gwent, sef:

- Atal troseddu;
- Cefnogi dioddefwyr;
- Cydlyniant cymunedol;
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Darparu gwasanaethau'n effeithiol.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau plismona a throseddu yng Ngwent o 2018 i 2022.

## 2. Cyflwyniad

---


Trwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi amlinellu ei weledigaeth ar gyfer Gwent sydd â hyder yn ei gwasanaeth heddlu a lle mae trigolion yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Trwy roi cyfle go iawn i'r cyhoedd a rhanddeiliaid lywio a dylanwadu ar flaenoriaethau plismona a diogelwch cymunedol bydd darpariaeth gwasanaeth yn gwella.

Mae'r strategaeth hon yn gyd-ddibynnol ar ystod o gynlluniau, strategaethau a gweithgareddau eraill, sy'n cynnwys:

- Gwent Mwy Diogel - Cynllun Heddlu a Throseddu Gwent 2017 - 2021;
- Cynllun Cyflenwi Heddlu Gwent;
- Gwent Mwy Diogel – Aseiad Strategol o Ddiogelwch Cymunedol yng Ngwent;
- Strategaeth ar y Cyd ar gyfer Lles a Bregusrwydd 2018 - 2022
- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011;
- Strategaeth Ddigidol Heddlu Gwent;
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Strategaeth Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu;
- Strategaeth Llesiant a Bregusrwydd;
- Cod Moeseg cenedlaethol ar gyfer plismona sy'n diffinio sut y dylai pob swyddog ac aelod o staff ryngweithio â'r cyhoedd ac â'i gilydd.

Un darn allweddol o ddeddfwriaeth a fydd yn llywio cyflenwi'r strategaeth hon yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru'n cydweithio er budd y dinesydd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn benodol. Mae'r egwyddorion a nodir yn y Ddeddf yn berthnasol i ni ac maent yn hanfodol i sicrhau bod yr Heddlu'n cynorthwyo i gyfrannu at lesiant pobl yng Ngwent. Er nad yw plismona wedi cael ei ddatganoli i Gymru, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn wahoddedigion statudol i'r byrddau gwasanaeth cyhoeddus sy'n rheoli'r cydweithio hwn ac mae cynrychiolwyr o'r ddau sefydliad yn bresennol ym mhob un o'r pum bwrdd gwasanaeth cyhoeddus yng Ngwent, yn chwarae rhan lawn ym mhopeth maent yn ceisio'i gyflawni. Byddwn yn sicrhau bod yr egwyddorion a amlinellir yn y Ddeddf yn cael eu hystyried ym mhob un o'n gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Caiff y strategaeth hon ei monitro trwy gynhyrchu dau gynllun gweithredu unigol a'r adroddiadau blynyddol cysylltiedig (un gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac un gan Heddlu Gwent). Bydd y gwaith o gyflawni'r cynlluniau gweithredu hyn yn seiliedig ar y model pedair rhan canlynol:



### 3. Gweledigaeth Strategol


---

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent wedi ymrwmo i sicrhau bod pob aelod o'r gymuned, cyn belled â'i bod yn ymarferol, yn cael cyfle i gymryd rhan yn eu gweithgareddau ymgysylltu. Cyflawnir hyn trwy wella'r ffordd y cysylltir ac ymgynghorir â chymunedau a phrif randdeiliaid a'r ffordd maent yn cael eu cynnwys a'u grymuso a bydd angen gweithgarwch gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent, yn ogystal â'n partneriaid, i'r perwyl hwn. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl hefyd wedi ymroi i barhau i wella gwaith partner gyda gwasanaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i gefnogi cydweithio a fydd yn cyflawni mewn perthynas â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddau ar gyfer Gwent.

### 4. Sut mae Gwent yn edrych?

---

Mae gan Gwent boblogaeth o bron i 577,000 ac mae pobl yn byw mewn ardaloedd gwledig a threfol ar draws pum awdurdod lleol; Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r ardaloedd awdurdod lleol hyn yn amrywio yn economaidd ac yn ddiwylliannol, gydag ardaloedd cefnog a difreintiedig.



1

Gyda'r fath amrywiaeth ar draws y sir, bydd angen cynllunio a thargeddu gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu, gan ganolbwyntio ar y cymunedau nas clywir yn aml.

## 5. Y Fframwaith Deddfwriaethol

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu'n hanfodol wrth sicrhau y gall y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl gyflawni eu dyletswyddau fel yr amlinellir mewn deddfwriaeth.

### Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Mae dyletswydd ar y Comisiynydd Heddlu a Throseddau i adael i bobl wybod am blismona, polisiâu a gweithgareddau sy'n effeithio arnynt ac, yn hollbwysig, i'w cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Rhaid iddo ymgysylltu mor eang â phosibl â'r holl unigolion neu sefydliadau perthnasol i sicrhau ei fod yn deall y prif heriau sy'n wynebu Gwent ac yn gallu pennu'r amcanion plismona iawn i fynd i'r afael â nhw.

Mae'r gyfraith yn gosod nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau penodol ar y Comisiynydd Heddlu a Throseddau mewn perthynas ag ymgynghori ac ymgysylltu gan

<sup>1</sup> Ffynhonnell Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru.: Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad 2011 . 'Ystadegau ar gyfer Cymru' cynhyrwyd Rhagfyr 2012. 1 Gender Variance in the UK, Prevalence, incidence, growth and geographic distribution, GIRES, Mehefin 2009; Stonewall (<http://www.theguardian.com/politics/reality-check/2013/oct/03/gay-britain-what-do-statistics-say>)



gynnwys adran 14 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol sy'n mynnu bod rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:

- gael barn dioddefwyr troseddau yn yr ardal honno am faterion sy'n ymwneud â phlisma'r ardal;
- cyn cyhoeddi cynllun heddlu a throseddu, gwneud trefniadau i gael barn pobl yn yr ardal blisma honno, a barn dioddefwyr troseddau yn yr ardal honno;
- cyn y cyhoeddi y praecept cyntaf ar gyfer blwyddyn ariannol, trefnu i gael barn y bobl yn yr ardal blisma honno, a chynrychiolwyr perthnasol y talwyr ardrethi, ynghylch cynigion y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer gwariant (gan gynnwys gwariant cyfalaf) yn y flwyddyn ariannol honno.

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol am oruchwyllo i ba raddau mae'r Prif Gwnstabl wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol hefyd.

### **Y Prif Gwnstabl**

Mae adran 34 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn mynnu bod rhaid i'r Prif Gwnstabl:

- gael barn cymunedau lleol ynghylch trosedd ac anhrefn yn eu cymdogaeth;
- gadael i gymunedau lleol wybod am blisma yn eu cymdogaeth;
- cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr heddlu a'r gymuned mewn cymdogaethau lleol.

## **6. Atebolrwydd a Thryloywder**

---

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi ymroi i sicrhau atebolrwydd a thryloywder o ran plisma i'r cyhoedd yng Ngwent.

Un o brif amcanion cyflwyno comisiynwyr heddlu a throseddu oedd sicrhau atebolrwydd democrataidd wrth bennu blaenoriaethau plisma lleol. Mae'n hollbwysig felly bod y cyhoedd yn deall pwy yw eu Comisiynydd Heddlu a Throseddu, beth yw ei swydd, a pha effaith mae'n ei gael ar eu gwasanaeth plisma.

Mae tryloywder yn egwyddor bwysig sy'n sail i atebolrwydd cyhoeddus, ac mae'n ofynnol bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent yn ymddwyn mewn ffordd sy'n rhoi amrywiaeth eang o wybodaeth i'r cyhoedd er mwyn eu helpu nhw i wneud dewisiadau gwybodus. Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i ddarparu mynediad cyhoeddus i'r broses o graffu ar y gwasanaeth heddlu, y mae deddfwriaeth bresennol y DU yn sail iddi, gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol a Gorchymyn Cylch Plisma Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi ymroi i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i alluogi'r cyhoedd i'w ddal i gyfrif yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu eisoes wedi ennill gwobrau am dryloywder gan CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) a bydd yn parhau i geisio bod mor agored a thryloyw â phosibl wrth gyhoeddi gwybodaeth yn unol â'i dyletswyddau cyfreithiol.

## 7. Cynulleidfaoedd Allweddol

---

Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn ceisio ymgysylltu'n effeithiol â phob un o'n cymunedau, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Caiff yr ymroddiad hwn ei adlewyrchu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd sy'n cynnwys yr amcan allweddol canlynol:

**Mynediad, Ymgysylltiad a Chydlyniad:** Sicrhau bod y gwaith o ddarparu ein gwasanaethau'n cael ei ddylanwadu gan farn y bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig a bod y gwaith rydym yn ei wneud yn hyrwyddo cynhwysiant a chydlyniad.

Yn ogystal ag ymgysylltiad cyhoeddus sy'n rhan o'n busnes o ddydd i ddydd, mae gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent amrywiaeth o rwydweithiau sefydledig a ddefnyddir ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Grŵp Cyngori Annibynnol** - mae'r Grŵp Cyngori Annibynnol yn darparu cyngor ac arweiniad annibynnol i Heddlu Gwent ynghylch gweithgareddau sy'n effeithio ar ein cymunedau, penderfyniadau polisi a'n hymateb i ddigwyddiadau tyngedfennol. Mae aelodau'r Grŵp Cyngori Annibynnol yn wirfoddolwyr o bob rhan o Went y mae eu safbwyntiau'n cael eu llywio gan brofiad ac arbenigedd unigol, cefndiroedd amrywiol a'r cymunedau ehangach maen nhw'n eu hadlewyrchu.
- **Fforwm Rhyng-ffydd** - Mae'r Fforwm Rhyng-ffydd yn dwyn pobl o wahanol ffydd at ei gilydd o bob rhan o Went i hyrwyddo cydlyniad cymunedol ac i'n helpu ni i lunio ymatebion effeithiol i densiynau neu ddigwyddiadau tyngedfennol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- **Grŵp Mynediad Pobl Anabl** - Mae'r Grŵp Mynediad Pobl Anabl yn rhoi cymorth i Heddlu Gwent wella mynediad i bobl anabl at wasanaethau plismona. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau ac unigolion sydd â phrofiadau bywyd/proffesiynol ar draws y sbectrwm anabled.
- **Gwasanaethau Pobl Ifanc/Cadetiad** - Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn ymgysylltu'n rheolaidd â gwasanaethau pobl ifanc ledled Gwent, gan gynnwys y rhai Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol neu anabl. Mae'r cynllun Cadetiad hefyd yn annog pobl ifanc i ymgysylltu'n fwy ffurfiol â ni trwy raglen hyfforddiant achrededig. Un o'n blaenoriaethau yn y maes hwn yw gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau trydydd sector i sicrhau bod pobl ifanc o ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, a all fod wedi ymddieithrio, neu sy'n ynysig am resymau eraill (er enghraifft pobl ifanc nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt) hefyd yn cael y cyfleoedd hyn.



## 8. Egwyddorion Cyfathrebu ac Ymgysylltu Effeithiol

---

Caiff y strategaeth hon ei llywio gan nifer o egwyddorion craidd sy'n ceisio sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu ac ymrwmo:

**Yn gynrychioliadol a chynhwysol:** Bydd Heddlu Gwent a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn monitro Nodweddion Gwarchoddedig y bobl rydym yn ymgysylltu â nhw er mwyn sicrhau ein bod yn cael ein llywio gan safbwyntiau sy'n cynrychioli'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn yn ymgymryd â gwaith ymgysylltu wedi ei dargedu os byddwn yn canfod nad yw grwpiau penodol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn ein data, neu os bydd ymgysylltu'n ymwneud â gweithgareddau rydym yn gwybod sy'n cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig.

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod cyfloed ymgysylltu yn agored i bawb, a fydd yn aml yn golygu ymgysylltu mewn amryw o wahanol ffyrdd. Bydd unrhyw ffurf ar ymgysylltu bob amser yn ceisio cyflawni ein dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>2</sup>, er mwyn talu sylw dyledus i'r angen i feithrin cydberthnasau da, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a dileu gwahaniaethu ac aflonyddu. Rydym hefyd wedi ymroi i ddarparu cyfleoedd ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg, fel yr amlinellir yn ein dogfen Strategaeth Y Gymraeg 2017-2021 a byddwn yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2011<sup>3</sup>.

**Yn gydweithredol a chyd-gysylltiedig:** Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn cydweithio â'i gilydd a gydag asiantaethau partner eraill i leihau dyblygu gwaith ac i rannu sgiliau, adnoddau, gweithgareddau ymgysylltu a chanlyniadau ymgynghoriadau. Bydd y dull 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus' hwn yn helpu i gyflawni arbedion, canfod cyfleoedd meincnodi a rhannu arfer gorau.

Bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi ar fyrdau gwasanaeth cyhoeddus a'r gwaith a gyflawnir ganddynt i ganfod blaenoriaethau sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn rhinwedd aelodaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent o'u byrdau ymgysylltu unigol, rydym yn gwbl ymwybodol o'u hagenda ac yn gweithio i'w gefnogi.

**Yn gost effeithiol ac yn darparu gwerth am arian:** Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent wedi ymroi i gyflawni eu dyletswyddau statudol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau, dioddefwyr troseddau, troseddwr a rhanddeiliaid eraill mewn ffordd effeithiol, ystyrlon a chost effeithiol a byddwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd cymesur rhwng cost, ansawdd a buddiannau wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn.

**Yn drefnus a phwrpasol:** Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn cydweithio i sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu'n cael eu

---

<sup>2</sup> Ceir gwybodaeth fanylach a gweithgarwch wedi'i gynllunio mewn perthynas â hyn yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd <http://www.gwent.pcc.police.uk/transparency/publications/strategic-equality-plan-and-objectives/>

<sup>3</sup> Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Safonau'r Gymraeg 2011, ewch i <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru>

trefnu'n iawn ac yn briodol ar gyfer eu cynulleidfa darged, yn cael eu hesbonio'n glir i'r cyhoedd ac y rhoddir digon o amser iddynt i'w galluogi nhw i fod yn effeithiol a chynhwysol.

**Yn barod i dderbyn newid/ cynhwysiant digidol:** Mae'r ffordd mae unigolion yn ymgysylltu a chyfathrebu wedi newid yn ddigyffelyb dros y blynyddoedd diweddar, yn arbennig gyda thwf y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol. Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn gweithio i ddefnyddio dulliau newydd a thraddodiadol o gyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau yn y ffordd orau posibl, chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio a chrosawu technolegau a thechnegau newydd<sup>4</sup>.

## 9. Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i Gymunedau a Phrif Randdeiliaid

---

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl wedi ymroi i sicrhau bod cymunedau a dioddefwyr ledled Gwent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y materion sy'n ymwneud â throseddau a diogelwch cymunedol sy'n effeithio arnynt. Rhaid sylweddoli gwerth rhoi a derbyn gwybodaeth.

O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, bwriad y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl yw:

- cyfathrebu mewn ffordd agored, dryloyw ac atebol sy'n glir, yn gywir, yn gynhwysol, yn llawn gwybodaeth ac yn amserol bob amser;
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, sydd wedi eu teilwra i anghenion a dewisiadau cymunedau lleol;
- ehangu gwybodaeth pobl o swyddogaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddau a gwaith Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau;
- cynyddu cynulleidfa gwefannau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent a sicrhau eu bod yn hawdd i'w defnyddio ac yn hygyrch;
- mwynhau cydberthnasau gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gyda'n cyfryngau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac arbenigol, i gydnabod y rhan bwysig maen nhw'n ei chwarae yn llywio canfyddiadau'r cyhoedd;
- sicrhau bod y cyhoedd a phartneriaid yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddau;
- defnyddio rhwydweithiau cyfathrebu partner presennol a rhai sy'n datblygu yn y ffordd orau posibl;
- cael cyfrwng i ddarparu sylwebaeth ar faterion pwysig a rhoi persbectif ar bolisi plismona;
- sicrhau bod adborth o weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei gyhoeddi a'i gyfathrebu yn brydlon, ynghyd â manylion yr hyn a fydd yn cael ei wneud o ganlyniad.

---

<sup>4</sup> Ceir gwybodaeth fanylach a gweithgarwch wedi'i gynllunio mewn perthynas â hyn yn Strategaeth Ddigidol Heddlu Gwent, sydd ar gael gan Heddlu Gwent.

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth sicrhau bod Heddlu Gwent yn gwneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth i gymunedau lleol am blismona yn eu cymdogaeth;
- cynnal rhaglen o ymgyrchoedd atal troseddu a sicrhau eu bod yn cyrraedd grwpiau targed yn effeithiol;
- gwella gwefan y llu i sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio ac yn hygyrch, gan ddarparu amryw o wasanaethau hunanwasanaeth i'r cyhoedd;
- parhau i ddatblygu'r gwasanaeth negeseuon cymunedol, Gwent Nawr, gan sicrhau bod trigolion yn cael gwybod am faterion cyfredol, cyngor atal troseddu a straeon newyddion da.

## 10. Ymgysylltu ac Ymgynghori â Chymunedau a Phrif Randdeiliaid

---

Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent yn sicrhau yr ymgysylltir ac ymgynghorir â chymunedau lleol, ac y rhoddir gwybodaeth iddynt er mwyn iddynt ddylanwadu ar y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r penderfyniadau strategol sy'n effeithio arnynt.

Bydd pob ymgynghoriad a gynhelir yn cydymffurfio ag Egwyddorion Gunning fel y cytunwyd yn unol ag arfer gorau (gweler Atodiad B). Bydd holl ymgynghoriadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yn dilyn 'Canllawiau Ymgynghori Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'<sup>5</sup>. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod adborth yn gynrychioliadol ac ystyrlon, cynhelir ymgynghoriadau wedi'u targedu ble y bo'n briodol i sicrhau bod lleisiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli digon yn cael eu clywed.

O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, bwriad Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent yw:

- meddu ar fwy o wybodaeth am y materion sy'n effeithio ar drigolion a busnesau Gwent;
- mesur sut mae'r heddlu a phartneriaid yn perfformio wrth roi sylw i flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu;
- deall barn y cyhoedd am lefel praesept yr heddlu (cyfran treth y cyngor sy'n talu am wasanaethau plismona) cyn pennu'r gyllideb ar gyfer Heddlu Gwent bob blwyddyn;
- dangos tystiolaeth o'r angen am barhad gwasanaeth, ail ddylunio gwasanaeth neu ddarparu gwasanaeth newydd;
- deall beth sydd ei angen ar gymunedau er mwyn iddynt gadw eu hunain yn ddiogel a theimlo'n fwy diogel;
- cyhoeddi canlyniadau ac effeithiau ymgynghoriadau.

Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth sicrhau bod Heddlu Gwent yn gwneud y canlynol:

- ystyried hyder y cyhoedd mewn plismona;

---

<sup>5</sup> Mae Canllawiau Ymgynghori Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gael trwy gysylltu â [Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu](#).

- parhau i ymgynghori â thrigolion lleol ar y materion sy'n effeithio ar eu cymuned (h.y. Eich Llais) a defnyddio'r adborth hwn i lywio strategaethau ar gyfer plismona ardaloedd lleol;
- gweithio gyda chymunedau i'w cynorthwyo i gadw eu hunain yn ddiogel a theimlo'n fwy diogel;
- cysylltu â dioddefwyr troseddau yn briodol a defnyddio adborth i gyflawni gwelliannau i'r ddarpariaeth gwasanaeth;
- parhau i ddarparu'r arolwg ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig.

## **Eich Llais**

'Eich Llais' yw prif ddull ymgysylltu'r llu. Bydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n mynd i'w cymunedau a thrafod materion sydd o bwys i drigolion lleol ac yna byddant yn cwblhau arolwg electronig trwy gyfrwng dyfais symudol a bydd y canlyniadau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr Arolygydd Cymdogaeth Lleol. Yna mae timau cymdogaeth leol yn ymgynghori â'u rhwydweithiau unigolion allweddol<sup>6</sup> ac ar ôl hynny penderfynir ar y flaenoriaeth ar gyfer y ward.

Yn dilyn y broses hon caiff y flaenoriaeth a ddewisir ei nodi mewn cynllun gweithredu (lle y defnyddir dull datrys problemau'r model Aseiad o Ymateb i Ddadansoddiad Sganio (SARA)) a'i gofnodi yn y Gronfa Ddata Rheoli Cymdogaeth. Bydd timau lleol, gyda chefnogaeth partneriaid perthnasol, yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion cymunedol a godwyd ac yn rhoi adborth uniongyrchol i'r cyhoedd am y gweithgarwch parhaus trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol, blogiau arolygwyr a ffyrdd mwy confensiynol o gyfathrebu. Caiff y cylch ei ailadrodd bob chwe mis, ar ddechrau mis Ebrill a mis Hydref<sup>7</sup>.

## **11. Cynnwys a Grymuso Cymunedau a Phrif Randdeiliaid**

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl wedi ymroi i gynnwys a grymuso cymunedau a defnyddwyr gwasanaeth wrth lywio gwasanaethau lleol. Bydd y ddau yn parhau i annog cyfathrebu uniongyrchol trwy fentrau a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ogystal â pharhau i ddarparu rhaglenni i wirfoddolwyr.

O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, bwriad Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yw:

- codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o rolau gwirfoddoli gan gynnwys Cadetiaid, Cwnstabiliaid Gwirfoddol, Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ac Ymwelwyr Lles Anifeiliaid;
- archwilio ffyrdd newydd o gynnwys grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a'r rhai nas clywir yn aml;
- parhau i ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau sy'n cefnogi pobl ifanc;

<sup>6</sup> Grŵp craidd o bobl leol yw rhwydwaith unigolion allweddol sy'n byw, gweithio neu'n mynd trwy gymdogaeth yn rheolaidd.

<sup>7</sup> Ceir mwy o wybodaeth am ymgysylltu gan yr heddlu'n lleol oddi wrth [Heddlu Gwent](#).

- trwy ddarparu cyllid grant a gwasanaethau wedi'u comisiynu, hyrwyddo gweithredu gyda chymunedau er mwyn iddynt gadw eu hunain yn ddiogel a chynorthwyo i gyflawni uchelgeisiau'r Cynllun Heddlu a Throseddau;
- hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o wella cynaliadwyedd cynlluniau fel y Panelau Atal Troseddau a Thimau Gweithredu Diogelwch Cymunedol;
- parhau i adeiladu ar waith partner gyda'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill;
- mynychu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol, cyfarfodydd a diwrnodau partneriaeth er mwyn bod yn hygyrch i grwpiau ac unigolion;
- sicrhau bod gan gymunedau fynediad at y wybodaeth a'r cyngor y mae eu hangen arnynt i fod yn ddiogel a theimlo'n ddiogel.

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth sicrhau bod Heddlu Gwent yn gwneud y canlynol:

- bod yn hygyrch i'r cyhoedd trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys 101, e-bost, cymorthfeydd a riportio ar-lein;
- grymuso cymunedau i fynd i'r afael â phroblemau yn y gymdogaeth trwy gyfarfodydd a chymorthfeydd datrys problemau lleol;
- hyrwyddo a chyflawni'r cynllun Cadetiaid i bob sector yn y gymuned;
- hyrwyddo ac annog cyfleoedd i Wirfoddolwyr Cymorth yr Heddlu ar draws pob maes plismona priodol;
- datblygu ymgysylltiad effeithiol â grwpiau wedi'u targedu yn ein cymuned;
- defnyddio adborth rhwydweithiau unigolion allweddol gan gymunedau a phrif randdeiliaid i yrru gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaeth.

## 12. Mesur Llwyddiant

---

Mae amryw o fesurau wedi cael eu nodi sy'n dangos i ba raddau mae gweithgareddau i ymgynghori â chymunedau lleol, eu hysbysu a'u grymuso, yn helpu'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau o gymunedau mwy diogel, gwell boddhad i ddioddefwyr a mwy o ymddiriedaeth a hyder mewn plismona. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymgynghoriadau ac arolygon;
- cyfarfodydd cyhoeddus;
- sylw yn y cyfryngau;
- monitro perfformiad;
- sylw yn y cyfryngau cymdeithasol;
- cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â'r wefan;
- lefelau ymgynghori uniongyrchol;
- effeithiau a chanlyniadau prosiectau a ariennir gan grantiau.

Bydd y mesurau hyn yn cael eu monitro trwy'r cynlluniau gweithredu unigol ac adroddiadau blynyddol.

Ceir gwybodaeth fanylach am hyn yn Atodiad A.

Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu bob blwyddyn er mwyn ystyried datblygiadau newydd a sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

## 13. Cydnabyddiaethau

---

Hoffem gydnabod strategaethau ymgysylltu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Swydd Warwick, Dyffryn Tafwys a Sussex a roddodd gyfeiriadau defnyddiol i ni wrth ddatblygu'r strategaeth hon.



### **Ymgynghoriadau ac arolygon Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent**

- Mae data sylfaenol yr ymgynghoriad ar y Cynllun Heddlu a Throseddau'n rhoi amrywiaeth o fesurau yn ymwneud â gweithgarwch plismona a fydd yn cael ei werthuso'n rheolaidd i lywio penderfyniadau ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaeth a gwella canfyddiad y cyhoedd o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent.
- Mae Heddlu Gwent yn cynnal arolwg o ddioddefwyr troseddau, yn arbennig dioddefwyr cam-drin domestig.
- Arolwg blynyddol o weithlu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau/Heddlu Gwent.

### **Data ymgynghori arall**

- Mae Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr yn rhoi data ar lefel genedlaethol ynghylch agweddau tuag at blismona a diogelwch cymunedol, yn ogystal ag ymwybyddiaeth gyffredinol o swyddogaeth a gwaith comisiynwyr yr heddlu a throseddau.
- Bydd angen ystyried ymgynghoriadau partner o bob rhan o Went, yn arbennig y rhai a gynhelir gan y byrddau gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn sicrhau ymagwedd partner cydgysylltiedig tuag at ddiwallu anghenion Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### **Sylw yn y cyfryngau**

- Caiff swmp a thôn y sylw a roddir i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn y cyfryngau eu mesur gan ddarparwr penodol. Mae'r darparwr hwn yn mesur nifer y datganiadau rhagweithiol i'r wasg sy'n ennill sylw cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol, ar y radio a theledu ac mewn print i sicrhau bod cynnwys yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf.

### **Twf y cyfryngau cymdeithasol**

- Yn ogystal â mesur twf sianelau cyfryngau cymdeithasol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent, mae data ar gael i ddangos effaith pob neges. Mae'n allweddol ein bod yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, cyfran yr ymwelwyr, nifer y bobl sy'n "hoffi" a'r cyrhaeddiad cyffredinol ar y cyfryngau cymdeithasol.

### **Twf y wefan**

- Mae gwefannau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Heddlu Gwent yn 'fffenestri siopau' ar gyfer gwaith y ddau sefydliad ac mae amryw o fetrigau ar gael i ddilyn cynnydd. Rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith o gynyddu nifer yr ymwelwyr a nifer y tudalennau a ddefnyddir gan bob ymwelydd, yn ogystal â sicrhau bod dyluniad y wefan yn ystyried nifer cynyddol y defnyddwyr sy'n defnyddio dyfais symudol yn unig i gael mynediad ati.





### **Ymgysylltu uniongyrchol**

- Lefelau ymgysylltu uniongyrchol â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r cyhoedd yn nhermau gohebiaeth â'r swyddfa a monitro'r cyfleoedd ymgysylltu misol, gan gynnwys data megis nifer y cyfarfodydd / digwyddiadau, eu lleoliadau, y mathau o gymunedau sy'n bresennol, y cwestiynau / materion a godwyd a'r camau gweithredu dilynol. Gellir casglu data tebyg o ymgysylltiad â swyddogion a staff heddlu.

### **Cynllun grantiau**

- Mae cynllun grantiau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn galluogi darparwyr cymunedol, statudol a'r trydydd sector i gyflawni amrywiaeth eang o wasanaethau. Bydd nifer y rhai sy'n derbyn grantiau, canlyniadau grantiau unigol a'r effaith y mae'r gwasanaethau yn eu cael ar y defnyddwyr yn cael eu monitro'n flynyddol i sicrhau bod canlyniadau allweddol yn cael eu cyflawni. Bydd perfformiad mewn perthynas â'r mesurau hyn yn cael ei fonitro trwy gytundebau'r cynllun grant i sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddau.

DYMA'R HYN Y MAE'N RHAI D I YMGYNGHORIAD EI GYFLAWNI ER MWYN BOD YN YSTYRLON

 <p>rhaid cyflwyno rhesymau digonol dros y cynnig er mwyn ei ystyried yn ddeallus ac ymateb iddo</p>	 <p>rhaid rhoi digon o amser i'w ystyried</p>
 <p>rhaid ei gynnal pan mae'r cynnig yn cael ei ffurfio</p>	 <p>rhaid cymryd y wybodaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad i ystyriaeth yn gydwybodol</p>

Cyn 1985, ni roddwyd fawr ddim ystyriaeth i ymgynghoriadau nes y cynhaliwyd achos llys a oedd yn drobwynt yn ystod y flwyddyn honno (R v London Borough of Brent ex parte Gunning). Sbardunodd yr achos hwn yr angen am newid yn y broses ymgynghori pan gynigiodd Stephen Sedley CF set o egwyddorion a gafodd eu mabwysiadu wedyn gan y barnwr gweinyddol. Cadarnhawyd yr egwyddorion hyn, a adwaenir fel egwyddorion 'Gunning' neu 'Sedley', yn ddiweddarach gan y Llys Apêl yn 2001 ac maent bellach yn berthnasol i bob ymgynghoriad cyhoeddus sy'n digwydd yn y DU.<sup>8</sup>

<sup>8</sup> <http://www.nhsinvolvement.co.uk/connect-and-create/consultations/the-gunning-principles>

## EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU 'R CYHOEDD YNG NGHYMURU



**1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth**  
Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisiâu, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

**2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny**  
Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

**3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol**  
Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

**4 Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol**  
Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

**5 Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall**  
Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

**6 Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan**  
Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

**7 Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol**  
Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

**8 Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol**  
Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.


**9 Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad**  
Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

**10 Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu**  
Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfraniad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Calodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru. Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o [www.participationcymru.org.uk](http://www.participationcymru.org.uk)  
Mawrth 2011



# Atodiad D – Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc



**Cael llais  
Cael dewis**  
**Having a voice  
Having a choice**

## Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc


### Children and Young People's National Participation Standards


"Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i gael sylw i'w barn"  
Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plantyn (CCUHP)


"Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account"  
Article 12: The United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)

Mae hyn yn golygu:	Byddwn ni:		This means:	We will:
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael i chi wneud penderfyniad gwybodus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn darparu gwybodaeth o safon dda, yn glir ac yn hawdd mynd ati.</li> <li>Yn rhoi gwybod i chi pwy sy'n mynd i wrando a gadael i chi wybod pa wahaniaeth galla'ch cyfranogiad chi ei wneud.</li> </ul>	<p><b>1</b> Gwybodaeth Information</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to information that is easy to understand and allows you to make an informed decision.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Provide information that is good quality, clear and accessible.</li> <li>Inform you about who's going to listen and let you know what difference your involvement could make.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych chi eisiau cymryd rhan.</li> </ul>	<p><b>2</b> Chi biau'r dewis It's your choice</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to choose to be involved and work on things that are important to you.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Give you enough support and time to choose if you want to get involved.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn herio gwahaniaethu.</li> <li>Yn cynnig amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.</li> </ul>	<p><b>3</b> Dim gwahaniaethu No discrimination</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Children and young people are all different and have the right to be treated fairly.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Challenge discrimination.</li> <li>Provide a range of opportunities and support to meet the needs of children and young people.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i leisio barn. Mae'ch safbwyntiau chi'n bwysig a chânt eu parchu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gwrandao ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddiffri.</li> <li>Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig.</li> <li>Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig.</li> </ul>	<p><b>4</b> Parch Respect</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to have a say. Your opinions are important and will be respected.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Listen to your views, experiences and ideas and take you seriously.</li> <li>Work with you on things you say are important.</li> <li>Value what you have to offer.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod.</li> <li>Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth.</li> <li>Rydyn ni eisiau i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gweithio gyda chi mewn ffordd ddiogel, hwyl a phleserus.</li> <li>Yn manteisio i'r eithaf ar beth rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n meithrin eich hyder a'ch sgiliau chi.</li> </ul>	<p><b>5</b> Bod ar eich ennill You get something out of it</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to learn and be the best you can be.</li> <li>You will have opportunities to work with others and make a difference.</li> <li>We want you to be involved in positive experiences.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Work with you in safe, fun and enjoyable ways.</li> <li>Make the most of what you know and do things that build your confidence and skills.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwrandao ar eich syniadau chi.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bob amser yn sicrhau eich bod chi'n cael adborth o fewn amser sydd wedi'i gyntuno.</li> <li>Yn dweud wrthy'ch chi sut mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio a pham.</li> <li>Yn dweud wrthy'ch chi beth sy'n digwydd nesaf.</li> </ul>	<p><b>6</b> Adborth Feedback</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to know what differences you have made and how your ideas have been listened to.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Always ensure you have feedback in an agreed time.</li> <li>Tell you how your ideas have been used and why.</li> <li>Tell you what happens next.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yng nghanol popeth maen nhw'n ei wneud.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gweithio gyda chi ac yn dysgu sut i wneud pethau'n well.</li> <li>Yn gwneud yn siŵr bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydyn ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau.</li> </ul>	<p><b>7</b> Gweithio'n well drosoch chi Working better for you</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Work with you and learn how we can do things better.</li> <li>Ensure your views make a difference to the way we make plans and decisions.</li> </ul>

Y Safonau hyn sy'n cynnal tair colofn CCUHP - Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogi  
The Standards underpin the three pillars of the UNCRC – Protection, Provision & Participation









**Cael llais  
Cael dewis**  
**Having a voice  
Having a choice**

## Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc

### Children and Young People's National Participation Standards

"Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i gael sylw i'w barn"  
Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plantyn (CCUHP)

"Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account"  
Article 12: The United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)

Mae hyn yn golygu:	Byddwn ni:		This means:	We will:
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael i chi wneud penderfyniad gwybodus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn darparu gwybodaeth o safon dda, yn glir ac yn hawdd mynd ati.</li> <li>Yn rhoi gwybod i chi pwy sy'n mynd i wrando a gadael i chi wybod pa wahaniaeth gallai'ch cyfranogiad chi ei wneud.</li> </ul>	<p><b>1</b> Gwybodaeth Information</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to information that is easy to understand and allows you to make an informed decision.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Provide information that is good quality, clear and accessible.</li> <li>Inform you about who's going to listen and let you know what difference your involvement could make.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i ddevis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddevis a ydych chi eisiau cymryd rhan.</li> </ul>	<p><b>2</b> Chi biau'r dewis It's your choice</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to choose to be involved and work on things that are important to you.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Give you enough support and time to choose if you want to get involved.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn herio gwahaniaethu.</li> <li>Yn cynnig amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.</li> </ul>	<p><b>3</b> Dim gwahaniaethu No discrimination</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Children and young people are all different and have the right to be treated fairly.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Challenge discrimination.</li> <li>Provide a range of opportunities and support to meet the needs of children and young people.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i leisio barn. Mae'ch safbwyntiau chi'n bwysig a chânt eu parchu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gwrandao ar eich barn, eich profiadau a'ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddiifr.</li> <li>Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig.</li> <li>Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynig.</li> </ul>	<p><b>4</b> Parch Respect</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to have a say. Your opinions are important and will be respected.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Listen to your views, experiences and ideas and take you seriously.</li> <li>Work with you on things you say are important.</li> <li>Value what you have to offer.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod.</li> <li>Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth.</li> <li>Rydyn ni eisiau i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gweithio gyda chi mewn ffordd ddiogel, hwyl a phleserus.</li> <li>Yn manteisio i'r eithaf ar beth rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n meithrin eich hyder a'ch sgiliau chi.</li> </ul>	<p><b>5</b> Bod ar eich ennill You get something out of it</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to learn and be the best you can be.</li> <li>You will have opportunities to work with others and make a difference.</li> <li>We want you to be involved in positive experiences.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Work with you in safe, fun and enjoyable ways.</li> <li>Make the most of what you know and do things that build your confidence and skills.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennych chi'r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwrandao ar eich syniadau chi.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bob amser yn sicrhau eich bod chi'n cael adborth o fewn amser sydd wedi'i gytbwnto.</li> <li>Yn dweud wrthy'ch chi sut mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio a pham.</li> <li>Yn dweud wrthy'ch chi beth sy'n digwydd nesaf.</li> </ul>	<p><b>6</b> Adborth Feedback</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>You have the right to know what differences you have made and how your ideas have been listened to.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Always ensure you have feedback in an agreed time.</li> <li>Tell you how your ideas have been used and why.</li> <li>Tell you what happens next.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yng nghanol popeth maen nhw'n ei wneud.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn gweithio gyda chi ac yn dysgu sut i wneud pethau'n well.</li> <li>Yn gwneud yn siŵr bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydym ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau.</li> </ul>	<p><b>7</b> Gweithio'n well drosoch chi Working better for you</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Work with you and learn how we can do things better.</li> <li>Ensure your views make a difference to the way we make plans and decisions.</li> </ul>

Y Safonau hyn sy'n cynnal tair colofn CCUHP - Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogiad  
The Standards underpin the three pillars of the UNCRC – Protection, Provision & Participation

